OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2934 (Cy.266)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *7 Tachwedd 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *24 Ionawr 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 71 a 104(3) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru(**2**), ac wedi ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd yn unol ag Erthygl 8 o Gyfarwyddeb y Cyngor 98/34/EC(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 24 Ionawr 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio'r Rheoliadau

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) 1992 yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

(2) Yn lle rheoliad 2(c), rhodder —

“(c) “the Code” means the code of practice entitled “Specification for the Reinstatement of Openings in Highways” dated 7 November 2006, and approved by the National Assembly for Wales on 7 November 2006 as revised and reissued from time to time;”.

(3) Yn lle rheoliad 2(e), rhodder —

“(e) “a road carrying more than 125 million standard axles” means a road so constructed as to be capable of carrying more than 125 million standard axles per annum.”.

(4) Yn rheoliad 3(3), yn lle'r geiriau “30 million standard axles” rhodder “125 million standard axles”.

(5) Yn y Tabl i reoliad 4(2)—

(**1**) 1991 p.22.

(**2**) Mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.J. Rhif .L204, 21.7.1998, t.37.

(a) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 3 o eitem 2, rhodder—

“Paragraphs S2.6.3 & S2.6.4”;

(b) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 2 o eitem 7, rhodder—

“S8 (Footways, Footpaths and Cycle Tracks)”;

(c) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 2 o eitem 8, rhodder—

“S9 (Verges and Unmade Ground)”; ac

(ch) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 3 o eitem 10, rhodder—

“Paragraph S12.4”.

(6) Yn y Tabl i reoliad 4(3)—

(a) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 3 o eitem 2, rhodder—

“Paragraphs S2.2.1, S2.3.1, S2.4.1, S2.4.3, S2.6.2.”;

(b) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 2 o eitem 7, rhodder—

“S8 (Footways, Footpaths and Cycle Tracks)”;

(c) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 2 o eitem 8, rhodder—

“S9 (Verges and Unmade Ground)”; ac

(ch) Yn lle'r geiriau yng ngholofn 2 o eitem 9, rhodder—

“S10 (Compaction Requirements)”.

(7) Yn rheoliad 7, yn lle'r geiriau “paragraphs 1.5,1.6.1 and 1.6.2”, rhodder “paragraphs S1.6 and S1.7”.

(8) Yn rheoliad 8, yn lle'r geiriau “paragraphs 1.6.1 and 1.6.2”, rhodder “paragraphs S1.7.1 and S1.7.2”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998((**4**)

*D. Elis-Thomas*

7 Tachwedd 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio (o ran Cymru) Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) 1992 (O.S. 1992/1689) ("Rheoliadau 1992). Mae Rheoliadau 1992 yn rhagnodi gofynion ar gyfer manylebion deunyddiau sydd i gael eu defnyddio a safonau crefftwaith y mae ymgymerwyr i gadw atynt wrth adfer strydoedd gan gyfeirio at God Ymarfer a ddyroddwyd yn 1992. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymeradwyo dyroddi Cod Ymarfer newydd o'r enw "Manyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd" (y "Cod newydd"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 i adlewyrchu'r ffaith fod paragraffau wedi cael Rhif au newydd, a phenawdau wedi cael enwau newydd, yn y Cod newydd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dilyn y Cod newydd drwy ddarparu fod y Cod yn gymwys i bob ffordd sy'n cario 125 o filiynau o echelau safonol. Ar wahân i hyn, mae'r Cod yn cyflwyno amryw o ofynion newydd, yn ymwneud yn enwedig â'r defnydd o ddeunyddiau penodol ar gyfer adfer y briffordd ac yn cyflwyno categori newydd o ffordd ar gyfer ffyrdd y mae llawer iawn o draffig arnynt.

Mae'r Cod newydd ar gael ar Wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn www.cymru.gov.uk.